

## AMDANOM NI

Mae Helfa Fawr y Casys Wyau wedi bod yn cynnwys aelodau'r cyhoedd ym maes cadwraeth siarcod ers 2003. Drwy gofnodi casys wyau siarcod a morgathod sy'n golchi i'r traeth, neu'r rhai a welir yn datblygu o dan y dŵr, gallwn gael gwell dealltwriaeth o bresenoldeb ac amrywiaeth rhywogaethau sy'n dodwy wyau yn nyfroedd Prydain.

Mae Prosiect SIARC (Siarcod yn Ysbrydoli Gweithredu ac Ymchwil gyda Chymunedau) yn brosiect amlddisgyblaethol sy'n gweithredu ledled Cymru, gyda phwyslais ar ymgysylltu ac ymchwil cymunedol mewn dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Ers lansio Prosiect SIARC ym mis Chwefror 2022, cynhaliwyd cyfres o helfeydd am gasys wyau gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Siarcod, ac mae'r rhain wedi digwydd yn bennaf yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Yn ogystal ag ymuno â digwyddiad wedi'i drefnu, anogir cymunedau arfordirol i gynnal eu helfeydd eu hunain am gasys wyau a chofnodi eu canfyddiadau gyda Helfa Fawr y Casys Wyau.

Dyma'r hyn rydych chi wedi'i ganfod hyd yn hyn...

## Y CHWE MIS DIWETHAF

Mai – Hydref 2022

Cyfanswm yr  
**HELFEYDD  
AM GASYS**


**39**








Cyfanswm yr  
**COFNODWYR**


**8**



Cyfanswm yr  
**CASYS WYAU A GOFNODWYD** **1,994**



Pob  = 1% o'r cofnodion


-  Morgi Brych
-  Morgi Lleiaf
-  Morgath Styds
-  Morgath Fannog

Pob  = < 1% o'r cofnodion


-  Morgath Felen
-  Morgath Lygadog

## LLEOLIADAU'R CASYS WYAU

Dros y chwe mis diwethaf, mae casys wyau wedi'u cofnodi drwy Brosiect SIARC mewn 18 lleoliad o gwmpas Gogledd Cymru:



Nifer y casys wyau a gofnodwyd



Casys wyau'r morgi brych (*Scyliorhinus stellaris*) a welwyd yn Mhorth Ysgo gan Ady Robinson



Casys wyau'r morgi lleiaf (*Scyliorhinus canicula*) a welwyd ym Mhen Morfa, Llandudno gan Reece Halstead



WWW.EGGCASE.ORG